

**Y wybodaeth
fyddwch chi'n
rhannu gyda ni
(hysbysiad
preifatrwydd)**



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio

Mae'r hysbysiad yma'n nodi beth fyddwn ni, Comisiynydd Plant Cymru, yn ei wneud â'ch ffurflen gais.

Pan fyddwch chi'n rhoi eich gwybodaeth i ni trwy'r ffurflen gais, mae yna reolau mae rhaid i ni eu dilyn, sef cyfreithiau Diogelu Data.

Mae'r cyfreithiau yma'n dweud wrthyn ni bod rhaid i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel, heb ei rhannu â neb arall.

Ni yw **rheolydd y data**, sy'n golygu mai ni sy'n gorfod gwneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel fel hyn.

Rydyn ni'n defnyddio cwmni o'r enw *Snap Surveys* i greu ein ffurflenni cais. Nhw yw **prosesydd y data**, sy'n golygu eu bod nhw'n ein helpu ni i gasglu'r wybodaeth.

Mae ganddyn nhw eu hysbysiad preifatrwydd eu hunain, y gallwch chi ei ddarllen [yma](#), yn dweud sut maen nhw'n helpu i gadw gwybodaeth pobl yn ddiogel.

Pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu a pham?

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni i benderfynu a ddylen ni gynnig lle i chi ar ein panel ymgynghorol.

Byddwn ni'n defnyddio'r manylion cyswllt rydych chi'n eu rhoi i ni i gysylltu â chi os bydd angen.

Gallen ni ei defnyddio i roi cefnogaeth ychwanegol i chi, os byddwch chi'n dweud bod angen hynny.

Dydyn ni ddim yn casglu mwy o wybodaeth nag sydd angen, nac yn ei chadw'n hirach nag sydd angen.

Does dim rhaid i chi roi'r wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani i ni, ond gallai peidio â gwneud hynny effeithio ar eich cais.

Byddwn ni'n gofyn i chi roi gwybodaeth i ni i'n helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n rhoi'r un cyfleoedd i bawb. Mae'r wybodaeth honno'n cynnwys eich rhywedd, eich oed, a'ch ethnigrwydd. Mae yna gyfraith sy'n dweud bod rhaid i ni wneud hyn: Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ond does dim rhaid i chi roi'r wybodaeth yna i ni, a bydd peidio â gwneud hynny ddim yn effeithio ar eich cais.

Fyddwn ni ddim yn rhoi'r wybodaeth i unrhyw staff tu allan i'n fîm recriwtio. Mae rhaid i ni gyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut rydyn ni'n rhoi'r un cyfleoedd i bawb. Pan fyddwn ni'n cyhoeddi'r wybodaeth yna, fyddwn ni ddim yn cyhoeddi enwau, felly fydd neb yn gwybod mai gwybodaeth amdanoch chi yw hi.

Pwy fydd yn cael mynediad i'r wybodaeth?

Staff sy'n gweithio i'r Comisiynydd Plant fydd yn cael mynediad i'ch gwybodaeth.

Fyddwn ni ddim yn rhannu eich gwybodaeth gyda neb arall.



Ble bydd yr wybodaeth yn cael ei storio?

Rydyn ni'n defnyddio cwmni o'r enw *Snap Surveys* i greu ein ffurflenni cais.

Mae hynny'n golygu y bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi ar y ffurflen yn cael ei chasglu i ni gan *Snap Surveys*, a'i storio yn y Deyrnas Unedig.

Gallwch chi ddarllen mwy am ble bydd yr wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn [Hysbysiad Preifatrwydd Snap Surveys](#).

Yna byddwn ni'n gallu darllen yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi ar ffurflen gais *Snap Surveys*. Byddwn ni'n storio'r wybodaeth ar ein gweinyddion diogel, sydd yn y Deyrnas Unedig.

Pa mor hir byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Mae [hysbysiad preifatrwydd Snap Surveys](#) yn cynnwys manylion pa mor hir byddan nhw'n cadw eich gwybodaeth.

Os cewch chi eich dewis i fod yn aelod o'n panel, byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth tra bod chi'n aelod. Byddwn ni'n dinistrio'r wybodaeth yn ddiogel 12 mis ar ôl i chi adael y panel.

Os nad ydych chi'n llwyddiannus, byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth am 1 flwyddyn wedi'r dyddiad cau, ac yna'n ei dinistrio'n ddiogel.

Pam mae angen i ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Yn ôl y gyfraith, mae rhaid bod gennym ni reswm da (yr enw ar hynny yw 'sail gyfreithiol') i gasglu a defnyddio eich gwybodaeth.

Er nad oes rhaid i ni recriwtio panel ymgynghorol o bobl ifanc, rydyn ni'n teimlo bod hynny'n rhan bwysig iawn o sut rydyn ni'n gweithio, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni bob amser yn gwrandao ar blant ac yn rhannu eu barn, ac i'n helpu i hybu a diogelu hawliau plant.

Mae yna gyfraith sy'n dweud bod rhaid i ni hybu a diogelu hawliau plant; yr enw ar hynny yw ein 'swyddogaeth gyhoeddus' — y gwasanaeth rydyn ni'n ei gynnis i bobl Cymru.

Felly rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth i gyflawni tasg er budd y cyhoedd.

Mae'r gyfraith hefyd yn gofyn ein bod ni'n gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd ac yn sicrhau ein bod ni'n dilyn rheolau eraill ynghylch camwahaniaethu ar sail anabledd.

Mae hynny'n golygu ein bod ni'n casglu gwybodaeth am unrhyw anabledd a allai fod gennych chi, i wneud yn siŵr ein bod ni mor hygyrch â phosib, ac yn gallu cefnogi unrhyw un sydd ag anghenion penodol.

Mae rhaid i ni wneud yn siŵr hefyd ein bod ni'n monitro cydraddoldeb ein proses recriwtio. Dyna pam rydyn ni'n casglu peth gwybodaeth o'r enw 'data categori arbennig', er enghraifft gwybodaeth am iechyd, crefydd neu ethnigrwydd.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Eich hawliau

Mae gennych chi'r hawliau canlynol o ran yr wybodaeth rydyn ni'n ei chadw amdanoch chi:

- Hawl i gael gwybod sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio.
- Hawl i weld copïau o'ch gwybodaeth bersonol.
- Hawl i newid eich gwybodaeth os yw hi'n anghywir.
- Hawl i ddileu eich gwybodaeth bersonol.
- Hawl i gyfyngu ar ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.
- Hawl i gael copi electronig hygyrch o'ch gwybodaeth bersonol.
- Hawl i'n stopio ni rhag defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Os hoffech chi ddefnyddio unrhyw rai o'r hawliau yma, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bostio post@complantcymru.org.uk neu ffonio 01792 765600.

Sut mae cwyno

Gallwch chi gwyno wrth ein Swyddog Diogelu Data os ydych chi'n anfodlon ar sut rydyn ni wedi defnyddio eich data. Byddan nhw'n ceisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych chi. Os ydych chi'n dal yn anfodlon ar ein hymateb ar ôl gwneud cwyn, gallwch chi gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu'r ICO. Dyma sut gallwch chi gysylltu â'r ICO: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF // Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales